

Cip ar Gynnyrch Becws

Defnyddwyr Cymru'n colli blas ar fara, gyda gwariant 9% yn is na'r 12 mis blaenorol. Ond mae deunydd heb glwten, cynnyrch arbenigol, cacennau a nwyddau bore yn parhau i dyfu wrth i dueddiadau tuag at fwyd iach, pethau da a 'rhywbeth gwahanol' barhau i yrru'r farchnad.

Cafwyd gostyngiad o bron i 9% yng nghyfanswm gwerth gwerthiant bara yng Nghymru yn y 12 mis hyd at Fedi 2016, gan barhau â'r gostyngiad o 1.9% y flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf gostyngiad o 3.2% mewn pris uned, cafwyd gostyngiad o 5.3% yn y cyfaint a brynwyd i bob unigolyn. Er bod treiddiad y farchnad fara yn parhau'n uchel iawn, wrth i 99.2% o'r boblogaeth brynu bara ar ryw bwynt yn y cyfnod, mae amllder prynu i lawr 2.3% a'r cyfaint sy'n cael ei brynu bob tro hefyd yn is. Mae pobl yn prynu llai o fara yn llai aml, er gwaethaf y gostyngiad yn y pris.

Mae marchnad fara Prydain hefyd yn gweld gostyngiad, gyda gwerthiant bara gwyn, brown a chyflawn yn is. Mae'r unig dwf mewn torthau gydag 'ychwanegiadau', oedd i fyny 5%.

Mae agwedd defnyddwyr at iechyd yn achosi her i'r farchnad fara. Dangosodd astudiaeth gan Mintel fod 31% o'r rhai sydd ddim yn bwyta bara sleis yn peidio oherwydd gormod o galoriau/carbohydradau/siwgr (Intel, 09/15). Serch hynny, mae 'iechyd' yn golygu gwahanol beth i wahanol bobl. Mae dewisiadau ysgafnach wedi perfformio'n dda yn y blynyddoedd diweddar – gyda fersiynau bach a thenau yn cynyddu. Ond wrth i brisiau godi, mae gwerthiant wedi disgyn.

Mae'r farchnad heb glwten yn parhau i dyfu, 19.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a gyda mwy o siopwyr yn y maes. Mae'r cynnyrch sydd ar gael yn cynyddu, gyda siopwyr yn gallu prynu amrywiaeth o gynnyrch yn cynnwys cacennau, bara ciabatta, bagels a chrempog.

Newid Blynyddol yng Ngwerthiant Cynnyrch Becws yng Nghymru*

Cynnyrch Becws	Gwerth (£m)	% Newid y Flwyddyn			
		Gwariant	Cyfaint	Amllder	Gwariant y Prynwr
Cacennau a Phastai	£91	2.9	3.2	2.9	4.5
Cynnyrch Bore	£111	1.1	1.4	4.9	2.1
Cyfanswm Bara	£104	- 8.9	-5.9	- 2.3	- 8.3

Gan fod bara'n cyfrif am draean gwerthiant cynnyrch becws, mae'r gostyngiad yng ngwerth bara wedi arwain at ostyngiad o 2% yng nghyfanswm gwerthiant cynnyrch becws yng Nghymru. Serch hynny, o fewn y sector, roedd gwerthiant cacennau a phastai a chynnyrch bore yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Roedd y farchnad cynnyrch bore yng Nghymru yn werth £111.3m yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016, gan ddangos twf o 1.1% ar y flwyddyn flaenorol. Mae treiddiad y farchnad wedi aros yn gyson ar 98.8% (+0.1%), ond mae amllder prynu 4.9% yn uwch

na'r flwyddyn flaenorol. Cramwyth (crumpets) sy'n dominyddu'r farchnad, ond mae croissants, bagels, torthau ffrwythau a chacennau tatws hefyd wedi'u cynnwys.

Roedd gwerthiant cacennau a phastai hefyd 2.9% yn uwch, i £91.2m yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016, gyda chyfanswm y cyfaint a brynwyd 3.2% yn uwch. Daw'r cynnydd mewn gwerthiant yn sgil amllder prynu, a gwariant uwch gan y prynwr.